Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 322

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Heddlu Dyfed Powys– Cyllido'r Uned Cefnogi Technegol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Derbyniwyd cais am gyllid i gefnogi prynu offer a ddefnyddir wrth ddatgelu sylweddau anghyfreithlon.

Mae'r Uned Cefnogi Technegol yn defnyddio technoleg gudd i gefnogi'r Tîm Troseddau Difrifol a Threfnedig gyda'u hymchwiliadau. Bydd yr offer a geisir yn cynnal gallu'r heddlu i drosglwyddo tactegau sy'n ateb un o flaenoriaeth allweddol yr heddlu: Gwneud ein hardal yn elyniaethus i'r rhai hynny sy'n masnachu cyffuriau.

Mae hyn yn bodloni blaenoriaeth y Comisiynydd o atal niwed oherwydd bydd yr offer hwn yn cefnogi erlyn masnachwyr cyffuriau a Grwpiau Trosedd Trefnedig cysylltiedig ac yn stopi eu gweithgarwch troseddol niweidiol yn y Gymuned.

Bydd yr offer wedi ei ddiweddaru hefyd yn caniatáu i Swyddogion ddarparu data cadarn gan sicrhau bod tystiolaeth o ansawdd yn cael ei gyflwyno i'r system cyfiawnder troseddol a fydd yn arwain at wasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon.

**Argymhelliad:**
Darparu cyllid o £45,417 o'r Gronfa Fforffedu Wrth Gefn a fydd yn cefnogi'r gweithgarwch hwn yn ystod 2023/24 yn unig. Dylai unrhyw ofynion cyllido yn y dyfodol gael eu hystyried gan gyllidebau mewnol yn unol â rhaglenni amnewid arferol.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad: 12/12/23**